Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Cyllideb Derfynol 2021-22

## Diogelu, Adeiladu, Newid

## Mawrth 2021

**llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2021
WG42105 ISBN digidol 978-1-80082-784-4

## Cynnwys

Pennod 1: Cyflwyniad ........ 1
Pennod 2: Newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol ........ 4
Pennod 3: Dyraniadau Cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 ........ 10
Pennod 4: Cynlluniau gwariant y Prif Grŵp Gwariant ........ 17
Atodiad A: Cysoni rhwng y Gyllideb weinyddol a Dyraniadau Adnoddau yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol ........ 22
Atodiad B: Rhestr o dermau ariannol ........ 23

# Pennod 1: Cyflwyniad

## Trosolwg

1.1 Heddiw mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r Gyllideb derfynol ar gyfer 2021-22, yn unol â Rheol Sefydlog 20.

1.2 Mae'r Gyllideb derfynol yn nodi cynlluniau gwario refeniw a chyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22, sef y flwyddyn derfynol y mae gennym setliad ar ei chyfer

1.3 Mae'r Gyllideb derfynol yn adlewyrchu newidiadau i'r Gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020.

## Craffu ar y Gyllideb Ddrafft

1.4 Oherwydd y ffactorau allanol sydd wedi dylanwadu ar amseriad y gyllideb eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi trefniadau eithriadol ar waith o ran proses y gyllideb, a hynny gyda chytundeb Pwyllgor Busnes a Phwyllgor Cyllid y Senedd. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi gyda'i gilydd, ar 21 Rhagfyr, y cynlluniau gwario strategol ar gyfer refeniw a chyfalaf, a chynigion ar drethiant a benthyca, yn ogystal â chynigion portffolio manwl y gyllideb.

1.5 Mae'r gwaith craffu ar Gyllideb ddrafft 2021-22 wedi'i strwythuro mewn ffordd debyg i'r blynyddoedd diwethaf gyda'r Pwyllgor Cyllid yn archwilio prif flociau adeiladu cyllideb Llywodraeth Cymru – o le mae ein cyllid yn dod, gan gynnwys benthyca a phwerau trethu newydd – gydag ystyriaeth fanylach o gynlluniau gwario adrannol gan bwyllgorau polisi'r Senedd.

1.6 Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu cyfraniad pwysig y Pwyllgor Cyllid a'r pwyllgorau polisi wrth graffu'n adeiladol ar gynigion y gyllideb. Hoffem gofnodi mor ddiolchgar ydym i'r holl bwyllgorau am eu gwaith craffu ac am gyhoeddi eu hadroddiadau o fewn yr amserlen fwy byr. Rydym wedi croesawu'r ddadl adeiladol yn ystod y gwaith craffu ar y gyllideb ac rydym wedi ystyried yr holl adborth a ddaeth i law yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys oddi wrth randdeiliaid a'n partneriaid cyflawni. Rydym wrthi'n cnoi cil ar yr argymhellion a wnaed gan bwyllgorau'r Senedd a byddwn yn ymateb i'r rhain cyn y ddadl ar y Gyllideb derfynol ar 9 Mawrth.

## Newidiadau i Gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

1.7 Fel rhan o Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU ar gyfer 2020-21, mae Cymru wedi cael £660m yn ychwanegol, yn ogystal â'r warant ariannu o £5.2bn, gan adlewyrchu ei chyfran Barnett o gyllid a gyhoeddwyd yn Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru'n cario'r cyllid hwn ymlaen i'r flwyddyn 2021-22 ar ben Cronfa Wrth Gefn Cymru. Mae'r cyllid ychwanegol hwn wedi'i gynnwys yn y Gyllideb derfynol.

1.8 Yn ogystal, bydd Cyllideb y DU yn cael ei chyhoeddi ar 3 Mawrth. Mae hyn yn rhoi gobaith gwirioneddol y bydd setliad Cymru ar gyfer 2021-22 yn newid. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu Datganiad Ysgrifenedig cynnar yn nodi goblygiadau Cyllideb y DU ar gyfer Cyllideb Cymru.

## Newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol

1.9 Mae'r amgylchiadau eithriadol ynghylch llunio'r Gyllideb ddrafft eleni wedi cael eu cydnabod gan y Pwyllgor Cyllid, gan gynnwys y tebygolrwydd y bydd newidiadau rhwng y Gyllideb ddrafft a'r Gyllideb derfynol. Wrth bennu'r Gyllideb ddrafft, darparwyd pecyn cychwynnol o gyllid gwerth £77m ar gyfer COVID-19. Bu inni ddweud bryd hynny y byddem yn adeiladu ar y cyllid hwn dros y misoedd nesaf a dyrannu mwy o gyllid adeg y Gyllideb derfynol wrth inni ddeall effaith y pandemig dros fisoedd y gaeaf. Bydd ein dull gweithredu o ran dyrannu cyllid yn dal yn seiliedig ar ddarparu cymorth ariannol cyflym mewn proses gyfrifol sy'n targedu adnoddau ar y lle iawn ar yr adeg iawn, yn seiliedig ar hynt y pandemig. I gyd, rydym yn dyrannu refeniw ychwanegol o £682.2m ar gyfer mesurau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn y Gyllideb hon, gan gynnwys swm ychwanegol o £636.6m i gefnogi ein GIG a'r awdurdodau lleol sy'n rhan flaenllaw o'n hymateb.

1.10 Rydym yn pryderu o hyd am golli cyllid yr UE yng Nghymru, ac yn rhannu'r siom a fynegwyd gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch yr effaith y bydd hyn yn ei chael. Byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i roi i Gymru'r tegwch, yr hyblygrwydd a'r eglurder y mae eu hangen o ran cyllid i ffermydd yn sgil ymadael â'r EU a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Adeg y Gyllideb ddrafft, bu inni ddweud y byddai angen inni ddarparu cyllid yn y gyllideb derfynol i reoli ein sefyllfa ar ôl y cyfnod pontio o'r UE yng ngoleuni'r cytundeb masnach gyda'r UE a beth fyddai'r goblygiadau llawn i Gymru. O ganlyniad, rydym hefyd yn darparu £11.2m yn ychwanegol yn y Gyllideb derfynol hon i gefnogi adnoddau ar ôl y cyfnod pontio o'r UE ar gyfer ailwladoli swyddogaethau newydd i Gymru ac i gefnogi prosiectau a ariennir drwy Gronfa Bontio'r UE.

1.11 Rydym yn darparu cymorth pellach ar gyfer ein blaenoriaethau ailgreu, gan adeiladu ar y pecyn cyllid ailadeiladu gwerth £320m a gyhoeddwyd gennym yn 2020-21. Gwyddom y gall buddsoddiad effeithiol mewn seilwaith gan y llywodraeth ysgogi'r galw yn yr economi yn y tymor byr i ganolig, tra'n gwella ochr gyflenwi'r economi yn y tymor hwy hefyd, a gwella canlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, rydym yn darparu pecyn ysgogi cyfalaf gwerth £224.5m yn y Gyllideb derfynol i gefnogi ein hymdrechion ailgreu.

1.12 Rydym yn cydnabod hefyd fod nifer o feysydd eraill lle bu galwadau yn ystod y broses graffu am fwy o fuddsoddi. Mae natur esblygol y pandemig yn golygu bod rhaid inni gadw cymaint o hyblygrwydd ag y gallwn er mwyn ymateb i anghenion y dyfodol wrth inni symud drwy'r flwyddyn ariannol.

1.13 Mae manylion pellach am y newidiadau i'w gweld ym Mhennod 2.

1.14 Darparwyd manylion llawn Asesiad Effaith Integredig Strategol Llywodraeth Cymru o'r Gyllideb ddrafft yn naratif y gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr. O gofio natur y newidiadau rhwng y Gyllideb drafft a'r Gyllideb Derfynol sy'n adeiladu ar fesurau presennol y mae asesiad o effeithiau eisoes wedi'i ddarparu ar eu cyfer, ni roddir unrhyw fanylion pellach fel rhan o'r Gyllideb derfynol hon.

1.15 Yn unol â'r ymrwymiad yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb, rydym wedi cyhoeddi dadansoddiad wedi'i ddiweddaru sy'n amcangyfrif allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â gwariant Llywodraeth Cymru. Mae'r dadansoddiad diweddaraf hwn bellach yn cwmpasu pob Prif Grŵp Gwariant, yn seiliedig ar gynigion gwariant yng Nghyllideb ddrafft 2021-22.

## Pennod 2: Newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol

2.1 Amlinellir y newidiadau a wnaed rhwng cyhoeddi'r Gyllideb ddrafft a'r Gyllideb derfynol yn y bennod hon.

### Cyllid COVID-19

2.2 Wrth bennu ein cynlluniau ar gyfer y Gyllideb ddrafft, amlinellwyd y byddai'n ddoeth cadw cymaint o hyblygrwydd â phosibl er mwyn i'n penderfyniadau ymateb orau i'r heriau sy'n esblygu oherwydd y pandemig. Ar yr un pryd, bu inni amlinellu y byddem yn gwneud dyraniadau pellach gan ein bod yn deall yn well effaith misoedd y gaeaf ar ledaeniad y pandemig, yn enwedig ystyried cymorth i'r GIG a llywodraeth leol.

2.3 Rydym yn cynnal y dull doeth hwn o gadw cyllid mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2021-22 er mwyn ymateb i anghenion eraill wrth iddynt godi, megis cymorth pellach i fusnesau. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cadarnhau eto a fydd yn ymestyn cymorth ar gyfer ardrethi annomestig yn Lloegr. Rydym yn gwneud yr holl baratoadau angenrheidiol i gefnogi ymateb cyflym i fusnesau Cymru cyn gynted ag y bydd Llywodraeth y DU wedi rhoi sicrwydd inni ar y cyllid sydd ar gael.

2.4 Mae'r Gyllideb derfynol hon yn dyrannu swm pellach o **£682.2m** yn ein hymdrechion i ymateb i COVID-19 tra'n parhau i gadw hyblygrwydd i'r flwyddyn ariannol nesaf.

2.5 Er **mwyn diogelu gwasanaethau craidd y GIG,** gan sicrhau'r buddsoddiad angenrheidiol i barhau i ymateb i effeithiau uniongyrchol y pandemig, rydym yn darparu **£380m** yn ychwanegol ar gyfer chwe mis cyntaf 2021-22. Bydd hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer parhau i gyflwyno ein rhaglen frechu lwyddiannus, cynnal capasiti profi COVID-19, ateb y galw parhaus am Offer Diogelu Personol, cynnal safonau glanhau gwell i reoli haint, cefnogi cynlluniau ymateb lleol y GIG, a chyllid ychwanegol ar gyfer mesurau eraill i ymateb i'r pandemig.

2.6 Gan adeiladu ar y £10m a ddyrannwyd yn y Gyllideb ddrafft, rydym yn darparu **£50m** yn ychwanegol ar gyfer **olrhain cysylltiadau** i gefnogi recriwtio a chynllunio'r gweithlu fel rhan ganolog o'n strategaeth i barhau i ddelio'n effeithiol ag achosion o COVID-19 a helpu i leihau cyfraddau trosglwyddo ymhellach.

2.7 Gan adeiladu ar **Gronfa Galedi Llywodraeth Leol** gwerth £600m yn 2020-21, ac i gefnogi'r awdurdodau lleol gyda'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID-19, byddwn yn darparu **£206.6m** yn ychwanegol i gefnogi llywodraeth leol ar gyfer chwe mis cyntaf 2021-22. Bydd hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ystod y tymor, gofal cymdeithasol i oedolion, profion cartrefi gofal, glanhau ysgolion, rheoli marwolaethau ychwanegol, taliadau hunanynysu, a chymorth digartrefedd.

2.8 I gydnabod y rôl bwysig y bydd cyflogadwyedd a sgiliau yn ei chwarae i gefnogi ein hadferiad, ac i adlewyrchu effeithiau'r pandemig ar ddarpariaeth prentisiaethau, rydym yn buddsoddi **£16.5m mewn prentisiaethau i** gynnal y lefelau presennol o leoedd prentisiaeth yn 2021-22.

2.9 Ym mis Mai 2020, diwygiwyd y rheolau ar gyfer ein **Cronfa Cymorth Dewisol** i ddarparu mwy o hyblygrwydd a disgresiwn i nifer ac amlder y Taliadau Cymorth Brys, gan gefnogi'r rhai sy'n wynebu caledi ariannol eithafol o ganlyniad i COVID-19. Rydym yn darparu **£10.5m i** ymestyn y rheolau hyn tan ddiwedd mis Medi 2021, gan ddangos ein hymrwymiad parhaus i'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas.

2.10 Yn y Gyllideb ddrafft, dyrannwyd £18.6m ar gyfer chwarter cyntaf 2021-22 **i roi sefydlogrwydd i weithredwyr bysiau** barhau i redeg gwasanaethau effeithlon, ac i ariannu adolygiad o ddiwygio'r diwydiant bysiau, gyda'r nod o ddiogelu dyfodol y diwydiant yng Nghymru. O gofio effaith barhaus y pandemig ar ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a'i rôl ganolog wrth gysylltu pobl a chymunedau ledled Cymru, yn enwedig i bobl o gartrefi sydd heb fynediad at drafnidiaeth breifat, rydym yn darparu **£18.6m** pellach i ymestyn ein cymorth i ail chwarter 2021-22.

## Cyllid yn sgil ymadael â'r UE

2.11 Adeg paratoi'r Gyllideb ddrafft, nid oeddem yn gwybod a fyddai cytundeb masnach cynhwysfawr gyda'r UE a beth fyddai'r goblygiadau llawn i Gymru. Am y rheswm hwnnw, amlinellwyd y byddem yn ystyried yr angen i ddarparu cyllid yn y Gyllideb derfynol i reoli ein sefyllfa ar ôl y cyfnod pontio o'r UE. Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) y cytunwyd arno ar 24 Rhagfyr 2020 yn bur wahanol i'r cytundeb yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i arddel o'r blaen. Er bod y cytundeb yn dod â rhywfaint o eglurder i'n perthynas â'r UE o'r diwedd, rydym bellach yn wynebu rhwystrau a chymhlethdodau newydd yn ein hymwneud â'r UE a'r 27 o Aelod-Wladwriaethau, ac mae ansicrwydd o hyd mewn nifer o feysydd allweddol.

2.12 Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddwyd *Y Berthynas Newydd â'r UE – Beth mae'n ei olygu i Gymru* i ddarparu canllaw ymarferol i oblygiadau'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE i Gymru. Rydym wedi ymrwymo o hyd i gefnogi dinasyddion, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i ymateb i'r newid anochel a'r heriau sydd wedi deillio o'r TCA.

2.13 O ganlyniad, rydym yn dyrannu **£7.1m** pellach yn 2021-22, gan gynnwys refeniw o £6.1m a chyfalaf o £1m, fel rhan o Gronfa Bontio'r UE gwerth £50m i barhau i weithio mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys:

- **£1.6m** i Gymru Fyd-eang III i hyrwyddo sector addysg uwch ragorol Cymru yn rhyngwladol, ac i adeiladu ar ein partneriaethau a'n rhwydweithiau ar draws y byd.
- **£1.2m** i gefnogi parhad cydgysylltwyr Brexit i reoli goblygiadau'r berthynas newydd ar ein hawdurdodau lleol.
- **£2m** (gan gynnwys £1m o gyfalaf) i fynd i'r afael â thlodi bwyd.

- **£0.8m** ar gyfer Timau Cydlyniant Cymunedol ar draws wyth rhanbarth yng Nghymru.
- **£0.6m** ar gyfer gwasanaethau cyngor a chymorth i ddinasyddion y tu allan i'r DU yn yr UE.
- **£0.2m** i sefydlu Uned Cynghori ar Ddata Cymru i roi cyngor strategol i'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar faterion sy'n ymwneud â data ar ôl y cyfnod pontio, ac i sicrhau cydymffurfiad â rheoliadau diogelu data.
- **£0.2m i** gefnogi gweithgarwch y trydydd sector, gan gynnwys cyllid ar gyfer Fforwm y Gymdeithas Sifil ar Brexit a datblygu adnoddau ar gyfer y trydydd sector er mwyn deall goblygiadau perthynas newydd yr UE yn well.
- **£0.2m** i'n helpu i baratoi ein trefniadau olynol ar gyfer cronfeydd strwythurol yr UE, gan gynnwys cynllunio fframwaith polisi rhanbarthol newydd a model cyflawni i sbarduno datblygu economaidd yng Nghymru.
- **£0.2m** ar gyfer gwasanaethau Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a chyngor mewnfudo'r UE, a gwasanaethau cyngor a chymorth i ddinasyddion y tu allan i'r DU yng Nghymru.
- **£0.1m** i ariannu gwaith parhaus gydag Anabledd Cymru i gefnogi'r gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu.

2.14 Ers 1 Ionawr 2021, mae **amrywiaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi'u dychwelyd i Gymru o Frwsel** gan osod rhwymedigaethau newydd ar Lywodraeth Cymru. Er mwyn sicrhau y gallwn ymateb i'r cyfrifoldebau newydd hyn a'r materion polisi arweiniol sy'n cael effaith uniongyrchol ar bobl yng Nghymru, rydym yn darparu **£4.1m** yn ychwanegol.

## Dyraniadau Refeniw nad ydynt yn COVID-19

2.15 Rydym hefyd yn gwneud nifer o ddyraniadau refeniw cymedrol gan ymateb i faterion sydd wedi codi ers i'r Gyllideb ddrafft gael ei chyhoeddi.

2.16 Ochr yn ochr â'n perthynas fasnachu wannach â'r UE, mae penderfyniad Llywodraeth y DU i beidio â rhoi cyllid cyfatebol i lefelau cyllid Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE yn golygu bod ffermwyr Cymru a chymunedau gwledig £137m yn brin o'r cyllid disgwyliedig yn 2021-22. Er mwyn cefnogi cymunedau gwledig a'r amgylchedd ymhellach, rydym yn dyrannu **£2.6m** i gefnogi datblygiad cymorth i ffermydd ar ôl yr UE ochr yn ochr â chyflawni'r ymrwymiadau sy'n weddill o dan y cynlluniau presennol a ariennir gan yr UE hyd at 2023.

2.17 Rydym yn cydnabod yr effaith sylweddol y mae'r pandemig wedi'i chael ar **Lyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru**. Mae gan y sefydliadau hyn rôl hanfodol mewn cymunedau ledled Cymru, yn enwedig y rhai mewn rhanbarthau Cymraeg eu hiaith, o ran diogelu hunaniaeth a diwylliant cenedlaethol Cymru. Mewn ymateb, rydym yn dyrannu **£4.25m i** ddarparu'r llwyfan angenrheidiol ar gyfer gwneud diwygiadau hanfodol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor y ddau sefydliad.

2.18 Yn seiliedig ar ein hymrwymiadau yn Cymraeg 2050, rydym yn buddsoddi **£0.8m** yn ychwanegol yn y **Coleg Cymraeg Cenedlaethol** i roi addysg bellach cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar waith, prentisiaethau mewn meysydd blaenoriaeth, ac i gynyddu nifer y tiwtoriaid dwyieithog mewn colegau ledled Cymru o fis Medi 2021.

2.19 Mae sicrhau diogelwch pobl ledled Cymru wedi bod yn rhan ganolog o'n hymateb i'r pandemig. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae **Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu** (PCSOs) wedi parhau i chwarae rhan hollbwysig wrth ddarparu presenoldeb gweladwy a hygyrch mewn lifrai i sicrhau bod ein cymunedau'n ddiogel. I gydnabod, rydym yn buddsoddi **£1.8m** yn ychwanegol i gynnal cyllid ar gyfer y 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ledled Cymru.

2.20 Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddwyd ein Papur Gwyn ar ***Drefn Diogelwch Adeiladu i Gymru***. Mae'r newidiadau a gynigiwyd o dan y drefn newydd yn golygu mai dyma'r diwygiadau diogelwch adeiladu mwyaf helaeth yn y DU. Er mwyn bwrw ymlaen â'r newidiadau rheoleiddiol hyn, rydym yn darparu **£3m** yn ychwanegol yn 2021-22.

2.21 Er mwyn sicrhau bod y £300m o refeniw a godir yn flynyddol drwy drethi cwbl ddatganoledig Cymru yn parhau i gael ei gasglu a'i reoli'n effeithiol ac yn effeithlon, ac i ddatblygu cam nesaf datblygiad **Awdurdod Cyllid Cymru,** rydym yn dyrannu **£0.3m** yn ychwanegol yn 2021-22, gan gynnwys cyllid i ddatblygu ei waith gorfodi a chydymffurfio.

## Pecyn Ysgogi Cyfalaf

2.22 Rydym yn darparu cymorth pellach ar gyfer ein blaenoriaethau ailgreu, gan adeiladu ar y pecyn £320m o gyllid ailgreu a gyhoeddwyd yn 2020-21. Mae'r Gyllideb derfynol hon yn dyrannu pecyn ysgogi cyfalaf gwerth cyfanswm o **£224.5m**, sy'n cynnwys £188.5m o gyfalaf cyffredinol a £36m o gyfalaf trafodion ariannol.

2.23 Gall buddsoddi mewn tai cymdeithasol chwarae rhan allweddol wrth gefnogi adferiad gwyrdd ochr yn ochr â sicrhau effaith economaidd a chymdeithasol ehangach. Rydym yn Buddsoddi **£100m** yn ychwanegol yn ein rhaglenni Tai Cymdeithasol trwy'r Gyllideb derfynol hon, gan fynd â chyfanswm ein buddsoddiad yn y **Grant Tai Cymdeithasol** i bron **£250m** yn 2021-22, gan gefnogi swyddi a chyfleoedd hyfforddi i adeiladwyr bach a chanolig yng Nghymru a chadwyni cyflenwi lleol.

2.24 Yn ogystal, mae'r buddsoddiad o **£100m** wedi ein galluogi i ymestyn ac uwchraddio'r **Rhaglen Ôl-osod** er mwyn Optimeiddio gan ddod â'n buddsoddiad yn y rhaglen hon i £50m yn 2021-22. Bydd hyn yn parhau i ddatblygu sgiliau newydd, offer asesu, cadwyni cyflenwi a fframweithiau caffael sy'n hybu datblygu busnesau bach a chanolig ac yn creu swyddi.

2.25 Rydym yn **darparu £12m** i gefnogi ein rhaglenni addasiadau ar gyfer pobl anabl. Bydd yr arian hwn yn cefnogi byw'n annibynnol, rhoi modelau gofal newydd ar waith, yn ogystal â chefnogi llai o dderbyniadau i'r ysbyty, dibyniaeth ar ofal preswyl, a lleoliadau y tu allan i'r sir. Bydd yr arian hwn hefyd yn hybu buddsoddiad yn y **Grant Addasiadau Ffisegol** gan adlewyrchu'r galw presennol a darparu cyllid i sicrhau y gall yr awdurdodau lleol ymateb i newidiadau mewn profion modd ar gyfer addasiadau bach a chanolig.

2.26 Rydym yn buddsoddi cyfalaf trafodion ariannol ychwanegol o **£10m** yn ein **Cynllun Tir ar gyfer Tai** i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a thai'r farchnad agored a'r gyfradd gyflenwi drwy sicrhau safleoedd tir, yn ogystal â hyrwyddo creu swyddi lleol, cyfleoedd hyfforddi, a chefnogi'r gadwyn gyflenwi datblygu tai.

2.27 Mae ein **Cronfa Datblygu Eiddo** lwyddiannus yn rhoi mynediad i gwmnïau datblygu bach at gyllid benthyciadau i adeiladu cartrefi newydd. Ochr yn ochr â hyn, mae **Cronfa Safleoedd Segur Cymru** yn helpu i greu a hyrwyddo cyfleoedd i gwmnïau adeiladu bach a chanolig, gan 'ddatgloi' safleoedd sy'n cynnig manteision ehangach i gymunedau lleol. Mae buddsoddiad pellach **o £15m o** gyfalaf trafodion ariannol yn cael ei ddarparu i ymestyn y Cronfeydd hyn gan sicrhau gweithwyr medrus presennol a darparu cyflogaeth bellach bosibl.

2.28 **Mae Cymorth i Brynu** - **Cymru** wedi chwarae rhan bwysig yn cefnogi pobl a hoffai fod yn berchen ar gartref newydd ond sydd wedi bod angen cymorth i wneud hynny. Mae'r cynllun hefyd wedi cefnogi'r diwydiant tai a chadwyni cyflenwi cysylltiedig. Gan adeiladu ar y £74m a ddyrannwyd yn y Gyllideb ddrafft, rydym yn darparu cyfalaf trafodion ariannol pellach o **£10m** yn y Gyllideb derfynol hon.

2.29 Mae cyfleusterau cymunedol yn darparu mynediad lleol at amrywiaeth o wasanaethau yn ogystal â gweithgareddau iechyd a lles. Er bod llawer o gyfleusterau wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer gweithgarwch drwy'r pandemig, mae eraill wedi aros ar gau oherwydd cyfyngiadau cymdeithasol. Mewn ymateb, rydym yn dyrannu **£3.5m** i'r **Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol** a chyfalaf trafodion ariannol pellach o **£1m** i'r **Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol.** Bydd hyn yn helpu sefydliadau'r trydydd sector i brynu a gwella asedau cymunedol, tir ac adeiladau, gan gynnwys y rhai yng nghanol trefi.

2.30 Mae **Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif** yn cefnogi twf economaidd, arloesedd a swyddi cynaliadwy ar gyfer rhai o'r sectorau ar y cyflogau isaf yng Nghymru, gan gefnogi cadwyni cyflenwi helaeth i wella cyfleoedd bywyd i ddysgwyr. I gydnabod yr effaith hon, darperir cyfalaf ychwanegol o **£30m** i gyflymu'r broses o gyflawni Band B o'r Rhaglen, gan bron ddyblu'r dyraniad a ddarparwyd gennym yn y Gyllideb ddrafft.

2.31 Mae buddsoddi mewn **teithio llesol** yn darparu gwell mynediad yn achos teithio llesol i gyflogaeth, addysg, gwasanaethau allweddol, ac yn dod â'n cymunedau at ei gilydd. Rydym yn dyrannu cyfalaf o **£20m** yn ychwanegol i ymestyn ein buddsoddiad mewn seilwaith teithio llesol ymhellach ac i'n galluogi i ddarparu cynlluniau atodol at ein llif arfaethedig o brosiectau. Mae hyn yn cynyddu cyfanswm ein buddsoddiad arfaethedig ar gyfer 2021-22 mewn prosiectau teithio llesol ac ymyriadau i tua £75m.

2.32 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gwelliannau ffyrdd wedi'u targedu'n dda yn hybu cynhyrchiant ac yn lleihau tagfeydd, sy'n gwella ansawdd aer. Gan gydnabod hyn, rydym yn dyrannu **£10m o gyfalaf** wedi'i dargedu at **bedwar cynllun mannau cyfyng rhwydwaith ffyrdd** Canolbarth Cymru yn 2021-22, sy'n ymwneud â'r A470 a'r A487.

2.33 Rydym eisoes yn buddsoddi cyllid sylweddol mewn amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir. Er mwyn cefnogi gwaith trwsio i asedau a ddifrodwyd yn dilyn llifogydd mis Rhagfyr a mis Ionawr a chynyddu'r Grant Gwaith Graddfa Fach, rydym yn darparu **£8m** yn ychwanegol i **helpu'r awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru i wella a chynnal ein** hamddiffynfeydd rhag llifogydd a lleihau'r risg i'n cartrefi.

2.34 Wrth gydnabod y llu o heriau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw ein hadeiladau hanesyddol yn barhaus, rydym yn darparu **£3m** ar gyfer buddsoddi yn ein **hystad ddiwylliannol**. Bydd y cyllid hwn yn helpu i ddiogelu rhannau pwysig o'n treftadaeth ddiwylliannol, mynd i'r afael â gwaith cynnal a chadw hanfodol, a hwyluso cyfleoedd ar gyfer moderneiddio ac effeithlonrwydd ynni er mwyn gwella cydnerthedd yn y tymor hwy.

2.35 Rydym yn darparu **£2m** yn ychwanegol i gefnogi'r gwaith o adeiladu a gwella **cyfleusterau chwaraeon** yng Nghymru. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i hybu busnesau adeiladu lleol a chadwyni cyflenwi, yn ogystal â sicrhau effaith gadarnhaol a pharhaol ar gyfranogiad a pherfformiad cymunedol.

# Pennod 3: Dyraniadau Cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

## Trosolwg

3.1 Adlewyrchir y newidiadau a ddisgrifir ym Mhennod 2 yn y cynlluniau gwario diwygiedig a nodir yn y bennod hon.

3.2 Nodir y newidiadau manwl i gynigion y gyllideb rhwng cyhoeddi'r Gyllideb ddrafft a'r Gyllideb derfynol yn 2021-22 yn nhablau BEL MEG Cyllideb derfynol 2021-22, a gyhoeddir ynghyd â'r Nodyn Esboniadol hwn.

Tabl 3.1 – Ffynonellau Cyllido 2021-22

| 2021-22 CYLLIDEB DERFYNOL | | | |
|---|---|---|---|
| **ELFENNAU CYLLIDO CYMRU** | **2021-22 Cyllideb Ddrafft Rhagfyr 2020** | **Newidiadau** | **2021-22 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Derfynol** |
| | **£000oedd** | | |
| **CYLLIDO ADNODDAU** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyllidoll | 14,351,223 | 497,557 | 14,848,780 |
| Anghyllidol | 690,064 | — | 690,064 |
| Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 125,000 | — | 125,000 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyllidoll | 27,915 | — | 27,915 |
| Anghyllidol | 149,934 | — | 149,934 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Ardrethi Annomestig | 1,101,000 | — | 1,101,000 |
| Cyfradd Treth Incwm Cymru | 2,064,061 | — | 2,064,061 |
| Treth Trafodiadau Tir | 230,998 | — | 230,998 |
| Treth Gwarediadau Tirlenwi | 32,728 | — | 32,728 |
| Ad-dalu Prifsymiau Benthyciadau | (6,887) | 4,470 | (2,417) |
| **CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU** | **18,766,036** | **502,027** | **19,268,063** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYLLIDO CYFALAF** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyffredinol | 2,255,555 | 137,131 | 2,392,686 |
| Trafodiadau Ariannol | 112,604 | 25,530 | 138,134 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyfalaf | 968,961 | — | 968,961 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Benthyca | 150,000 | — | 150,000 |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF** | **3,487,120** | **162,661** | **3,649,781** |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYMRU** | **22,253,156** | **664,688** | **22,917,844** |

Tabl 3.2 - Dyrannu Cyllideb Cymru - Adnoddau

| PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs) | | 2021-22 Cyllideb Ddrafft Rhagfyr 2020 | Newidiadau | 2021-22 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Derfynol Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|---|
| | | £000oedd | | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | | 9,212,875 | 430,000 | 9,642,875 |
| Tai a Llywodraeth Leol | | 6,026,310 | 310,300 | 6,336,610 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | | 1,691,348 | 65,100 | 1,756,448 |
| Addysg | | 2,696,556 | 32,400 | 2,728,956 |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg | | 336,084 | 9,250 | 345,334 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | | 719,126 | 10,600 | 729,726 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | 416,840 | 11,809 | 428,649 |
| **Cyfanswm Dyraniad i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | | **21,099,139** | **869,459** | **21,968,598** |
| Adnoddau heb eu Dyrannu | Adnoddau Cyllidol | 811,458 | (201,932) | 609,526 |
| | Adnoddau Anghyllidol | 149,515 | — | 149,515 |
| Cyfalaf heb ei Ddyrannu | Cyffredinol | 109,038 | (52,369) | 56,669 |
| | Trafodiadau Ariannol | 5,311 | 49,530 | 54,841 |
| Comisiwn y Senedd | | 62,914 | — | 62,914 |
| Public Services Ombudsman for Wales | | 5,110 | — | 5,110 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | | 8,148 | — | 8,148 |
| Y Comisiwn Etholiadol | | 1,750 | — | 1,750 |
| Taliadau a Godir yn Uniongyrchol ar Granfa Gyfunol Cymru | | 773 | — | 773 |
| **CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU** | | **22,253,156** | **664,688** | **22,917,844** |

Tabl 3.3 - Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru 2021-22

| | CYFANSWM DYFANIADAU PRIF GRWPIAU GWARIANT | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | | | | | | | | | |
| | Adnoddau | | | Cyfalaf | | | Gwariant a Reolir yn Flynyddol | | | CYFANSWM DYRANIAD PRIF GRWPIAU GWARIANT |
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | Cyllidol | Anghyllidol | Cyfanswm Adnoddau | Cyffredinol | Trafodiadau Ariannol | Cyfanswm Cyfalaf | Adnoddau | Cyfalaf | Cyfanswm Gwariant a Reolir yn Flynyddol | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,925,807 | 186,137 | **9,111,944** | 382,528 | — | **382,528** | 148,403 | — | **148,403** | **9,642,875** |
| Tai a Llywodraeth Leol | 4,411,441 | 381 | **4,411,822** | 728,465 | 65,806 | **794,271** | 1,130,517 | — | **1,130,517** | **6,336,610** |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 615,568 | 192,436 | **808,004** | 807,163 | 13,766 | **820,929** | 127,515 | — | **127,515** | **1,756,448** |
| Addysg | 1,515,870 | 111,052 | **1,626,922** | 279,491 | 1,968 | **281,459** | (148,386) | 968,961 | **820,575** | **2,728,956** |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg | 268,345 | 10,278 | **278,623** | 50,938 | (227) | **50,711** | 16,000 | — | **16,000** | **345,334** |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 510,159 | 21,675 | **531,834** | 197,892 | — | **197,892** | — | — | — | **729,726** |
